
# Bryn-y-Parc, tŷ neuadd o ran olaf yr Oesoedd Canol

# Bryn-y-Parc a Late Medieval Hall House

100 CBHC RCAHMW




Uchod: Cynllun llawr gwaelod Bryn-y-Parc, Lôn y Parc, Dinbych.

Above: Ground-floor plan of Bryn-y-Parc, Park Street, Denbigh.

Bryn-y-Parc is a remarkably complete example of a late medieval hall house range, built of high-quality stone to the ground floors and timber framed above. Dated through dendrochronology to between 1540 and 1580, the building consists of a high-status hall and parlour range that lay parallel to the street, with a kitchen and lodging range to the rear. In the later sixteenth century two further ranges of comparable quality were added. The grandeur of the building is marked by features such as the lateral chimney and elaborate, projecting mullion windows.

The building is located just to the north-west of the former Shire Hall and close to the site of Leicester's Church. The wealth of accommodation suggests that the site was originally used as an inn, providing board and lodgings for those involved in the busy day to day commerce of the market or the legal business carried out in the upper magistrate chambers of the Shire Hall.

Bryn-y-Parc was badly damaged by fire in 2002, and during the restoration process the Commission has carried out full investigations in order to understand its complex structural and historical development.


Mae Bryn-y-Parc yn enghraifft ryfeddol o gyflawn o dŷ neuadd a godwyd tua diwedd yr Oesoedd Canol. Cerrig cadarn sydd ar y lloriau gwaelod a fframwaith coed uwchlaw hynny. Dyddiwyd yr adeilad drwy ddendrocronoleg i 1540-1580. Ynddo mae neuadd o statws ac adain parlwr a oedd yn gyfochrog â'r stryd. Cegin ac ystafelloedd lletya sydd yn y cefn. Tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, ychwanegwyd ato ddwy gyfres bellach o ystafelloedd o safon debyg. Cyflëir crandrwydd yr adeilad gan nodweddion fel y simnai ystlysol a'r ffenestri mwliwn celfydd ac ymwthiol.

Saif yr adeilad ychydig i'r gogledd-orllewin o hen Neuadd y Sir ac yn ymyl safle Eglwys Leicester. Mae'r ystafelloedd niferus yn awgrymu mai tafarn oedd yno'n wreiddiol a'i bod yn cynnig llety i'r rhai a oedd yn ymwneud â masnach brysur y farchnad o ddydd i ddydd neu â'r busnes cyfreithiol a gynhelid yn siambrau'r ynadon ar lawr uchaf Neuadd y Sir.

Gwnaeth tân ddifrod mawr i Fryn-y-Parc yn 2002, ac yn ystod y broses o'i adfer mae'r Comisiwn wedi ymchwilio'n llawn iddo er mwyn deall cymhlethdod datblygiad ei adeiladwaith a'i hanes.

De: Rhannau o adain cegin Bryn-y-Parc, Lôn y Parc, Dinbych.

Right: Sections of the kitchen wing of Bryn-y-Parc, Park Street, Denbigh.







Chwith: Ochr ddwyreiniol ystafelloedd y gegin adeg y gwaith adfer.

Left: Kitchen range east elevation, during restoration.





Gwaelod Chwith: Ochr ddeheuol y neuadd, gan ddangos y simnai a ailgodwyd.

Bottom Left: Hall south elevation, showing re-built chimney.

Isod: Braslun adlunio sy'n dangos y neuadd ar y chwith, y gegin ar y dde, a'r tu hwnt iddynt, adain fawr y parlwr sy'n cydio yn adain y parlwr a'i fframwaith coed.

Below: Reconstruction sketch showing, hall range to left, kitchen range to right with the great parlour wing beyond adjoining the timber-framed parlour wing.





Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
*Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru*

Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales
*National Monuments Record of Wales*

Plas Crug, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1NJ

*Ffôn/ Telephone:* 01970 621200

www.cbhc.gov.uk / www.rcahmw.gov.uk